# Deuparth Ffordd Ei Gwybod

# Polisi Cwricwlwm

Mae'r Corff Llywodraethol wedi mabwysiadu'r Polisi hwn.

Adolygir y Polisi hwn pan gyflwynir unrhyw newidiadau gan yr Awdurdod Lleol.

Adolygwyd: Tachwedd 2025

Arwyddwyd: J Barton

**Cadeirydd y Corff Llywodraethol**

I'w adolygu: Tachwedd 2026

# YSGOL GARTH OLWG

**POLISI CWRICWLWM**

**Gweledigaeth Ysgol Garth Olwg**

Bydd Cwricwlwm Ysgol Garth Olwg yn meithrin arferion cadarnhaol a meddwl iach yn ein disgyblion, gan roi'r profiadau, y wybodaeth a'r sgiliau bywyd iddynt fod yn ddysgwyr sydd yn:

- **Meithrin Parch**
- **Annog Uchelgais**
- **Cydweithio fel un Gymuned**
- **Dathlu Cymreictod a Chymru**

Ein bwriad yn Ysgol Garth Olwg yw sicrhau profiadau addysgol eang, cytbwys, heriol, blaengar a pherthnasol ar gyfer pob un o'n dysgwyr. Mae ein cwricwlwm wedi eu hanelu i alluogi bod pob disgybl a phlentyn yn datblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben. Mae ein cwricwlwm wedi ei gynllunio felly i sicrhau bod y disgyblion a'r plant yn datblygu i fod yn:

- ddysgwyr galluog ac uchelgeisiol, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- gyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;
- ddinasyddion egwyddorol a gwybodus i Gymru a'r byd;
- unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

Rydym am i'n disgyblion fwynhau eu dysgu, cyfrannu i'w dysgu ac i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu.

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys y meysydd dysgu a phrofiad canlynol yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Y Dyniaethau
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Iechyd a Lles
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd

Mi fydd dysgwyr Ysgol Garth Olwg hefyd yn derbyn addysg ar yr elfennau mandadol isod o fewn y meysydd dysgu a phrofiad:

- Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
- Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Datblygu'r Sgiliau Trawsgwricwlaidd (Cymhwysedd Digidol, Llythrenned a Rhifedd).

Fe luniwyd y polisi hwn gan rhoi pob ystyriaeth i ddogfennaeth y Llywodraeth megis:

- Deddf Cwricwlwm ac Asesu Cymru 2021

**Amcanion**

Gweithredu'r cwricwlwm mewn ffordd sy'n

- galluogi pob disgybl i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben,
- sicrhau addysgu a dysgu sy'n cynnig cynnydd priodol ar gyfer pob disgybl,
- addas ar gyfer oedran, gallu a dawn pob disgybl,
- gynhwysol gan ystyried anghenion pob disgybl gan gynnwys disgyblion sydd gyda anghenion dysgu ychwanegol
- sicrhau addysgu a dysgu eang a chytbwys i bob disgybl.

**CWRICWLWM ACADEMAIDD**

**Ysgol Isaf**

Yn yr Ysgol Isaf mae pwyslais ar ddatblygu sgiliau cymdeithasol a lleferydd yn y Gymraeg yn ystod y blynyddoedd cynnar. Cynigir cwricwlwm eang a chyfoethog sydd wedi ei ddylunio yn unol â gofynion Cwricwlwm i Gymru. Mae'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr astudio disgyblaethau ar draws y chwe maes dysgu a phrofiad gan ddatblygu sylfaen addysgol cadarn wrth baratoi ar gyfer astudiaethau yn yr Ysgol Ganol.

**Ysgol Ganol**

Cynigir cwricwlwm eang a chyfoethog sydd wedi ei ddylunio yn unol â gofynion Cwricwlwm i Gymru. Mae'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr astudio disgyblaethau ar draws y chwe maes dysgu a phrofiad gan ddatblygu sylfaen addysgol cadarn wrth baratoi ar gyfer astudiaethau yn yr Ysgol Uchaf.

Gweler isod y gwersi mae disgyblion Blwyddyn 7 ac 8 yn derbyn o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad.

| Maes | Pwnc | Maes | Pwnc |
|---|---|---|---|
| Y Celfyddydau Mynegiannol | Celf | Mathemateg a Rhifedd | Mathemateg a Rhifedd |
| | Cerddoriaeth | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | Cymraeg |
| | Drama | | Saesneg |
| Y Dyniaethau | Dyniaethau | | Ffrangeg |
| Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Iechyd a Lles | Iechyd a Lles |
| | | | Addysg Gorfforol |
| | Technoleg Gwybodaeth | | |

**<u>Ysgol Uchaf</u>**

Ar ddiwedd Blwyddyn 8 mae dysgwyr yn cael mwy o gyfleoedd i ymgysylltu â'r gwahanol ddisgyblaethau o fewn pob Maes gan wneud penderfyniadau gwybodus i deilwra eu cwricwlwm ym Mlwyddyn 9, i arbenigo ynddynt wrth gyrraedd y camau cynnydd diweddarach. Hynny yw ceir dysgu pellach a dyfnach mewn 4 o'r 9 pwnc dewisol tu hwnt i'r cwricwlwm craidd statudol.

**Cwricwlwm Blwyddyn 9**

Mae pob dysgwr yn parhau i brofi dysgu ar draws y 6 Maes Dysgu a Phrofiad gan gynnwys astudio'r cwricwlwm craidd. Mae'r ysgol yn cydymffurfio gyda'r gofynion statudol i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd yn unol â'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig.

| **Cwricwlwm Craidd e.e.** | **Cwricwlwm Dewisol e.e.** |
|---|---|
| Cymraeg | Addysg Gorfforol Pellach |
| Saesneg | Astudiaethau Crefyddol |
| Mathemateg | Celf |
| Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Cerddoriaeth |
| Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg | Daearyddiaeth |
| Addysg Gorfforol Statudol | Drama |
| Technoleg Gwybodaeth Sylfaenol | Ffrangeg |
| | Hanes |
| | Technoleg Gwybodaeth Pellach |

**Cwricwlwm Blwyddyn 10 ac 11**

Cefnogir dysgwyr wrth iddynt wneud dewisiadau ôl 14 gan gynnal Noson Llwybrau Dysgu Ôl-14 i gyflwyno'r cymwysterau newydd. Ceir hefyd cyfres o sesiynau ac adnoddau ategol i helpu disgyblion ddeall yn well y llwybrau dysgu posib (e.e cyfnodau tiwtora, sesiynau o fewn y gwersi pynciol, gwefan opsiynau yr Ysgol Uchaf, gwasanaethau a chyfarfodydd gyda'r tîm bugeiliol). Cynhelir awdit dewis rhydd blynyddol er mwyn llunio colofnau sydd yn diwallu anghenion y dysgwyr orau. Cydnabyddir bod cynnig pob pwnc opsiynol yng Nghyfnod Allweddol 4 yn ddibynnol ar niferoedd hyfyw. Gweler y Llyfryn Llwybrau Dysgu Ôl-14 am fanylion pellach y cymwysterau rydym yn eu cynnig.

**Ysgol Hŷn**

Cefnogir dysgwyr wrth iddynt wneud dewisiadau ôl 16 gan gynnal Noson Llwybrau Dysgu Ôl-16, gan gyflwyno'r cymwysterau newydd i ddisgyblion yn ystod cyfnodau tiwtora ac o fewn y gwersi pynciol, ceir gwersi blasu, gwefan opsiynau yr Ysgol Uchaf, Prosbectws Ysgol Hŷn ynghyd â chyfarfodydd gyda'r tîm bugeiliol. Mae'r Ysgol yn cynnig ystod eang a chytbwys o bynciau Safon Uwch a Galwedigaethol sydd yn diwallu anghenion ein dysgwyr. Cynhelir adolygiad a phroses dewis rhydd blynyddol er mwyn llunio colofnau sydd yn diwallu anghenion y dysgwyr orau. Cydnabyddir bod cynnig pob pwnc opsiynol yng Nghyfnod Allweddol 5 yn ddibynnol ar niferoedd hyfyw. Rydym yn cynghori disgyblion i astudio'r Tystysgrif Her Sgiliau ynghyd â 2 neu 3 pwnc dewisol.

Gweler y Llyfryn Llwybrau Dysgu Ôl-16 am fanylion pellach y cymwysterau rydym yn eu cynnig.

**Llwybrau Dysgu Addas a Chynhwysiant o fewn y Cwicwlwm**

Byddwn yn gwerthuso ein darpariaeth gwricwlaidd yn gyson, yn adlewyrchol ac yn onest er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r llwybrau mwyaf addas i'n dysgwyr yn ein cwricwlwm ar bob cam yn eu gyrfa ysgol.

Byddwn yn addasu ein llwybrau yn hyblyg ac yn adeiladol yn sgîl ein prosesau hunanarfarnu trylwyr i sicrhau fod y llwybrau sydd yn eu lle ar gyfer ein dysgwyr yn addas ar gyfer eu hanghenion unigol, eu hoedran, gofynion y cohort a'r campws.

Byddwn yn addasu strwythur a threfn ein cwricwlwm yn ôl y prosesau hunanwerthuso hyn i sicrhau ein bod yn effro i ofynion pob grŵp blwyddyn er mwyn sicrhau yr addysg orau sydd wedi ei wahaniaethu'n bwrpasol i herio a chynnal pob dysgwr. Bydd hyn yn gallu arwain at addasiadau o flwyddyn i flwyddyn ac o gampws i gampws yn y llwybrau dysgu a'r trefniant grwpiau dysgu o fewn ein cwricwlwm.

Byddwn yn ystyried yn llawn lais ein holl randdeiliaid wrth ystyried y llwybrau cwrciwlwm mwyaf addas ar gyfer ein holl ddysgwyr i sicrhau fod pob un o ddysgwyr Garth Olwg yn cyrraedd eu llawn botensial.

**Iaith ein Cwricwlwm**

Yn Ysgol Garth Olwg, Cymraeg yw prif gyfrwng holl fywyd a gweithgarwch yr ysgol. Mae'r defnydd o'r iaith Gymraeg gan ddisgyblion, a'r holl aelodau staff o fewn y sefydliad hwn yn greiddiol i'r ethos a'r statws uchel a roddir i'r Gymraeg yn yr ysgol. Rhan greiddiol o'r ethos yma yw ein bod yn darparu pob elfen o'n cwricwlwm (ac eithrio gwersi Saesneg a Ieithoedd Rhyngwladol) trwy gyfrwng y Gymraeg pan fo hynny'n bosibl er mwyn gwireddu ein gweledigaeth o sicrhau fod pob disgybl yn datblygu i fod yn hyfedr ddwyieithog, er mwyn gallu chwarae rhan lawn yn y gymdeithas ddwyieithog y mae yn rhan ohoni

**Trefn y Diwrnod Ysgol**

# AMSEROEDD Y DYDD

| YSGOL ISAF | | | | | | | | YSGOL GANOL | | | | YSGOL UCHAF AC HŶN | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Meithrin a Derbyn | | Bl.1 | | Bl. 2 | | Bl. 3&4 | | Bl. 5&6 | | Bl. 7&8 | | Bl. 9-13 | |
| | | | | | | | | | | staff | 08:25 | staff | 08:25 |
| staff | 08:40 | staff | 08:40 | staff | 08:40 | staff | 08:40 | staff | 08:35 | | | | |
| | | | | | | | | cofr. | 08:45 | | | | |
| | | | | | | | | | | 1 | 08:30 | 1 | 08:30 |
| 1 | 08:50 | 1 | 08:50 | 1 | 08:50 | 1 | 08:50 | 1 | 09:00 | | | | |
| | | | | | | | | | | cofr. | 09:30 | cofr. | 09:30 |
| | | | | | | | | egwyl | 10:10 | 2 | 09:50 | 2 | 09:50 |
| | | egwyl | 10:20 | egwyl | 10:20 | egwyl | 10:20 | | | | | | |
| egwyl | 10:45 | | | | | | | | | | | | |
| 2 | 11:05 | 2 | 10:40 | 2 | 10:40 | 2 | 10:40 | 2 | 10:30 | egwyl | 10:50 | egwyl | 10:50 |
| | | | | | | | | | | 3 | 11:10 | 3 | 11:10 |
| cinio | 11:30 | cinio | 11:45 | cinio | 12:00 | cinio | 12:15 | cinio | 12:00 | | | | |
| | | | | | | | | | | 4 | 12:10 | 4 | 12:10 |
| | | | | | | | | | | cinio | 13:10 | cinio | 13:10 |
| 3 | 13:00 | 3 | 13:00 | 3 | 13:00 | 3 | 13:15 | 3 | 13:00 | | | | |
| | | | | | | | | | | 5 | 13:55 | 5 | 13:55 |
| | | | | | | | | | | symud | 14:55 | symud | 14:55 |
| | | | | | | | | | | adref | 15:00 | adref | 15:00 |
| adref | 15:20 | adref | 15:20 | adref | 15:20 | adref | 15:20 | adref | 15:20 | | | | |
| staff | 15:30 | staff | 15:30 | staff | 15:30 | staff | 15:30 | staff | 15:30 | staff | 15:15 | staff | 15:15 |